Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2017 Rhif 25 (Cy. 9)

# ARDRETHU A PHRISIO, CYMRU

## Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach) (Cymru) (Diwygio) 2017

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach) (Cymru) 2015 (O.S. 2015/229 (Cy. 11)) ("Gorchymyn 2015"). Mae Gorchymyn 2015 yn darparu ar gyfer cynllun rhyddhad ardrethi a chynllun rhyddhad ardrethi dros dro nad yw'n gymwys ond i gategorïau penodol o hereditament. Pan wnaed Gorchymyn 2015 yn wreiddiol, darparodd fod y cynllun rhyddhad ardrethi dros dro yn rhedeg o 1 Ebrill 2015 hyd 31 Mawrth 2016.

Mae Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach) (Cymru) (Diwygio) 2016 (O.S. 2016/32) (Cy. 13)) yn estyn y cynllun rhyddhad ardrethi dros dro hwnnw i 31 Mawrth 2017.

Mae erthygl 2 o'r Gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn 2015 ymhellach drwy estyn y cyfnod o amser y mae'r cynllun rhyddhad ardrethi dros dro yn gymwys hyd 31 Mawrth 2018.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Gorchymyn hwn.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2017 Rhif 25 (Cy. 9)

# ARDRETHU A PHRISIO, CYMRU

## Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach) (Cymru) (Diwygio) 2017

*Gwnaed* — *16 Ionawr 2017*

*Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* — *19 Ionawr 2017*

*Yn dod i rym* — *10 Chwefror 2017*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan adrannau 43(4B)(b), 44(9)(b), 143(1) a 146(6) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988(**1**) ac a freinir bellach ynddynt hwy(**2**).

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach) (Cymru) (Diwygio) 2017.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 10 Chwefror 2017 ond mae'n cael effaith o 1 Ebrill 2017 ymlaen.

(3) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

---

(**1**) 1988 p. 41. Mewnosodwyd is-adran (4B) o adran 43 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 gan adran 61(1) a (3) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 (p. 26). Mewnosodwyd is-adran (9)(b) o adran 44 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 gan adran 61(5) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003. Diwygiwyd adran 143(3) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 gan adran 84(4)(a) o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 (dccc. 3). Mae diwygiadau eraill i adran 143 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 nad ydynt yn berthnasol at ddibenion y Gorchymyn hwn.

(**2**) Breiniwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yng Ngweinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

**Diwygio Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach) (Cymru) 2015**

**2.** Yn erthygl 3(1) o Orchymyn Ardrethu Annomestig (Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach) (Cymru) 2015(**1**), yn lle "31 Mawrth 2017" rhodder "31 Mawrth 2018"(**2**).

*Mark Drakeford*
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol, un o Weinidogion Cymru
16 Ionawr 2017

(**1**) O.S. 2015/229 (Cy. 11).
(**2**) Diwygiwyd erthygl 3(1) o Orchymyn Ardrethu Annomestig (Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach) (Cymru) 2015 gan erthygl 2 o Orchymyn Ardrethu Annomestig (Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach) (Diwygio) (Cymru) 2016 (O.S. 2016/32 (Cy. 13)). Mae'r Gorchymyn hwn yn rhoi dyddiad newydd yn erthygl 3(1) o Orchymyn 2015 yn lle'r dyddiad hwnnw sydd wedi ei fewnosod gan O.S. 2016/32.